Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 307

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt wedi lansio'r ymgyrch diogelwch "Cael hwyl, Cymryd Gofal a Chadw'n Ddiogel" ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru 2023. Bydd yr ymgyrch hon yn gwella'r gweithgarwch a wnaed yn 2022, a bydd yn canolbwyntio ar annog ymddygiad priodol, yfed yn gyfrifol, camddefnyddio sylweddau, a gofalu am eich ffrindiau.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at y flaenoriaeth atal niwed yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae holl waith Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Llanfair-ym-Muallt yn mynd i'r afael ag ysgogwyr niwed, gan gynnwys trais, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymyrraeth gynnar a mentrau atal wrth wraidd pob gweithgaredd.

Gofynnwyd am gyllid gan y Comisiynydd ar gyfer costau cynhyrchu deunyddiau sydd i'w harddangos yng nghanol y dref, ar draws y tri safle digwyddiadau, safleoedd â thrwydded ar gyfer gwerthu alcohol, ac ar gyfer cefnogi ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi'i thargedu at bobl ifanc.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £5,000 tuag at gostau cynhyrchu a chyfryngau cymdeithasol ymgyrch "Cael hwyl, Cymryd Gofal a Chadw'n Ddiogel" 2023.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw fuddiant personol neu ragfarnus yn y mater hwn a gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 29/06/2023**